

**Gwriad, gwrthodiad ac anghrediniaeth:
trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol am
gam-drin plant yn rhywiol a'u dylanwad
ar ymatebion sefydliadol**

Asesiad cyflym o'r dystiolaeth

Adroddiad cryno

Jo Lovett, Maddy Coy a Liz Kelly

Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod
Prifysgol Fetropolitanaid Llundain

Chwefror 2018

**Gwyriad, gwrthodiad ac anghrediniaeth:
trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol
am
gam-drin plant yn rhywiol a'u dylanwad
ar ymatebion sefydliadol
Asesiad cyflym o'r dystiolaeth**

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Jo Lovett, Maddy Coy a Liz Kelly

Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod

Prifysgol Fetropolitanaid Llundain

Chwefror 2018

Ymwadiad

Mae hwn yn Asesiad Tystiolaeth Gyflym a baratowyd ar gais IICSA. Y barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rhai'r awduron yn unig.

Oherwydd natur yr adroddiad ymchwil, mae'r awduron wedi gweithio â'r syniadau pennaf ar gam-drin plant yn rhywiol ac yn defnyddio'r iaith y mynegwyd y syniadau hynny ynnddi'n gyffredin dros y cyfnod o'r 1940au hyd at 2017. Ni ddylid tybio bod y defnydd o iaith sy'n cyfleu'r syniadau a'r ystyron hyn yn gymeradwyaeth o unrhyw un o'r trafodaethau a nodwyd.

© Hawlfraint y Goron 2018 Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, trowch at nationalarchives.gov.uk/doc/.opengovernment-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.iicsa.org.uk Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn contact@iicsa.org.uk.

Cefndir

Nod yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA neu 'yr Ymchwiliad') yw ymchwilio a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth wedi cymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif i ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol yng Nghymru a Lloegr, ac i wneud argymhellion ystyrion ar gyfer newid, er mwyn helpu i sicrhau bod plant nawr ac yn y dyfodol yn cael eu diogelu'n well rhag camdriniaeth rywiol. Fel y'i diffinnir ym mholisi cyfredol y llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n cynnwys cam-drin trwy gyswllt a cham-drin di-gyswllt, camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a pharatoi plentyn at gamdriniaeth (Llywodraeth EM, 2015b).

Fodd bynnag, mae diffiniadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n golygu cam-drin plant rhywiol wedi bod yn destun newid sylweddol dros gyfnod o amser. Fel rhan o'i waith, comisiynodd yr Ymchwiliad asesiad cyflym hwn o'r dystiolaeth er mwyn deall beth oedd y trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol am gam-drin plant yn rhywiol, a'r dulliau y gallai'r trafodaethau hyn wedi dylanwadu ar ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol gan sefydliadau. Mae gan y cwestiynau hyn berthnasedd trawsbynciol ar gyfer gwaith yr Ymchwiliad.

Amcan trosfwaol yr REA hwn oedd crynhoi'r sail dystiolaeth bresennol ynghylch trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr o'r 1940au hyd at 2017 a nodi'r dulliau y gallai'r trafodaethau hynny fod wedi dylanwadu ar ymatebion sefydliadol i gam-drin o'r fath.

Diffinio trafodaethau

Mae'r term 'trafodaeth' wedi'i ddehongli a'i gymhwyso mewn modd eang yn yr ymchwil hon. Gellir diffinio trafodaethau fel clystyrau o syniadau sy'n darparu dulliau o siarad am faterion megis cam-drin plant yn rhywiol (Hall, 1997). Mae hyn yn cynnwys yr iaith, y derminoleg a'r diffiniadau a ddefnyddir ond hefyd sut mae cam-drin plant yn cael ei ddeall, trwy'r prif bwyntiau newid, a'r gwahanol lensys mae wedi ei weld trwydynt, er enghraifft, trwy ganolbwyntio ar ryw, dosbarth cymdeithasol neu rywioldeb. Mae'n bwysig ystyried pa drafodaethau sydd wedi'u dylanwadu fwyaf ar ddulliau siarad am gam-drin plant yn rhywiol dros amser, a phwy sy'n siarad, oherwydd bod yr iaith a ddefnyddir i'w ddisgrifio yn arwyddocaol o ran penderfynu sut mae'r mater yn cael ei drin. Mae trafodaethau hefyd yn cynhyrchu ystyron a all gael eu derbyn yn 'wirionedd' a chynnal cysylltiadau pŵer penodol mewn cymdeithas.

Mae'r cyd-destunau mae trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn deillio ohonynt yn amrywio'n eang. Maent yn cynnwys academia, gwleidyddiaeth, y cyfryngau, a mudiadau cymdeithasol neu grwpiau cymdeithas sifil megis y rhai ffeministaidd, hawliau plant a mudiadau dioddefwyr a goroeswyr. Gallant gael eu helaethu gan y cyfryngau a thrwy bolisi'r llywodraeth. Gall trafodaethau gael eu cysylltu â chyd-destunau neu 'arenâu' sefydliadol penodol. Maent yn cylchredeg o fewn ac ar draws y rhain ac yn gallu bod yn allweddol i sut mae sefydliadau'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Gall trafodaethau cystadleuol ac anghyson gyd-fodoli o fewn yr un cyfnodau amser, ac efallai y bydd y safbwyntiau ac ymagweddau a ddelir gan rai pobl yn cael eu herio gan bobl eraill, a all greu symudiadau.

Diffinio ymatebion sefydliadol

Diffinnir 'ymatebion sefydliadol' yma fel arferion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau megis ysgolion, eglwysi a'r cyfryngau, gan gynnwys sut maent wedi ymateb i honiadau a wneir am gam-drin rhywiol yn eu sefydliadau eu hunain neu mewn manau eraill; eu triniaeth o ddioddefwyr a goroeswyr a thramgwyddwyr; a'u modd llunio polisiau amddiffyn a diogelu plant. Er bod y teulu fel sefydliad cymdeithasol y tu allan i gwmpas yr Ymchwiliad, ymddengys mewn cysylltiad â methiant sefydliadol ac mae'n ailddigwydd fel thema graidd mewn nifer o'r trafodaethau a nodir yn yr adolygiad, yn bennaf trwy gydol y 1970au a'r 1980au.

Dull

Defnyddiwyd dull REA i nodi a chyfosod llenyddiaeth bresennol yn ymwneud â'r nod trosfwaol uchod. Nid dadansoddiad o drafodaethau yw'r adroddiad hwn. Yn hytrach, mae'n darparu dadansoddiad disgrifiadol a thematig o'r llenyddiaeth a adolygwyd, ac yn archwiliad i benderfynu a ellir gwneud cysylltiadau â'r ymatebion sefydliadol a ddogfennir yn y llenyddiaeth.

Ymchwiliwyd ac adolygwyd tri math o lenyddiaeth:

- Llenyddiaeth gyhoeddedig a gynhyrchodd ac/neu a ddefnyddiodd drafodaethau ac ymchwil eilaidd a drafododd y defnydd o drafodaethau gan bobl eraill (237 o destunau)
- Sampl o adolygiadau achos difrifol (68 o destunau)
- Sampl o adroddiadau a chyfarwyddyd ymchwiliadau cenedlaethol/sefydliadol (35 testun).

Digwyddodd chwiliadau ym mis Mawrth ac Ebrill 2017. Cynhwyswyd testunau os yr ysgrifenydwyd hwy yn Saesneg, os y cyhoeddwyd hwy rhwng 1940 a 2017, ac os y canolbwyntiwyd hwy ar Gymru neu Loegr. Cynhwyswyd hefyd rai testunau rhyngwladol lle'r oedd tystiolaeth o ddylanwad neu berthnasedd. Sgriniwyd testunau ar gyfer perthnasedd a sicrwydd ansawdd cyn eu cynnwys. Cyflwynir y canfyddiadau fel dadansoddiad integredig o'r tri math o lenyddiaeth.

Cyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth

Mae nifer o gyfyngiadau sy'n bwysig i'w nodi wrth ystyried y canfyddiadau a gyflwynir yma. Yn gyntaf, roedd yn anodd dod i gasgliadau ynghylch perthnasoedd achosol rhwng trafodaethau ac ymatebion sefydliadol o fewn paramedrau REA gan ei fod yn anodd canfod pa ymarferwyr unigol, grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol neu sefydliadau a oedd yn deall cam-drin plant yn rhywiol a beth fyddai eu ffordd o feddwl ar adegau penodol. Lle mae wedi bod yn bosibl olrhain a thracio dylanwadau, trafodir hyn gan gyfeirio at drafodaethau penodol.

Yn ogystal, dim ond yr hyn a drafodwyd yn y llenyddiaeth (chwiliadwy) y gall REA ei gipio. Roedd y deunyddiau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn ystod y 1940au hyd at ddiwedd y 1980au yn anoddach i'w nodi o gymharu â chyfnodau diweddarach. Hefyd, roedd mwy o lenyddiaeth ar sectorau a sefydliadau penodol (er enghraifft, gwaith cymdeithasol) nag eraill (er enghraifft, addysg).

Archwilio trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol dros gyfnod o amser

Mae sut y cynllunnir a diffinnir cam-drin plant yn rhywiol yn allweddol i'r modd y cyflwynir ac yr ymatebir i'r tramgwyddwr, y dioddefwr a'r goroeswr, a chyd-destun y gamdriniaeth. Mae trafodaethau ynghylch, dealltwriaeth o, ac ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol wedi symud mewn amrywiaeth o ffyrdd dros gyfnod o amser. Er enghraifft, mae diffiniadau cyfreithiol o droseddau wedi penderfynu a yw arwyddion penodol o gam-drin plant yn rhywiol wedi cael eu cydnabod fel tramgwydd troseddol. Yn yr un modd, mae sut mae tramgwyddwyr cam-drin plant yn rhywiol yn cyflwyno goblygiadau i'r tramgwyddwr a'r dioddefwr a'r goroeswr. Er enghraifft, disgrifiwyd 'camymddygiad rhywiol' yn y sector addysg fel rhywbeth sy'n pylu'r ffiniau rhwng anfoesoldeb a throeddoldeb a rhwng niwed i eraill a difrod i enw da (Bingham et al., 2016). Mae hyn wedi golygu nad yw goblygiadau ynghylch amddiffyn plant bob amser wedi'u cydnabod oherwydd gall y term 'camymddygiad' guddio cam-drin yn rhywiol. Roedd y newid iaith o 'buteindra plant' at 'gamfanteisio'n rhywiol ar blant' hefyd yn cynrychioli newid sylweddol o ran dealltwriaeth - er bod dadl barhaus ynghylch a yw gwahanu camfanteisio'n rhywiol ar blant rhag cam-drin plant yn rhywiol yn wahaniaethiad dilys a defnyddiol.

Dangoswyd bod trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn cyflwr parhaus o newid a datblygu. Mewn rhai dehongliadau, disgrifiwyd hwy fel symudiad o wrthodiad cymdeithasol o fodolaeth gamdriniaeth i gydnabod a derbyn bod cam-drin plant yn rhywiol yn ymddangos ar sawl ffurf (Kempe, 1978). Mae pobl eraill wedi diffinio hyn fel 'cylchoedd darganfod a chuddio' lle mae canfyddiadau newydd ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn profi gwrthwynebiad sylweddol (Olafson, Corwin and Summit, 1993). Hefyd disgrifiwyd cam-drin plant yn rhywiol fel rhywbeth sy'n 'drawiadol o anarferol am gael ei "ddarganfod", ei amau, ei ailsefydlu a'i anghredu dro ar ôl tro dros gyfnod o amser' (Nelson, 2016, p.91).

Mae rhai trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn gylchol eu natur; mae eraill yn fwy unionlin, tra bod eraill yn dal i fod ynghlwm wrth eiliadau penodol mewn amser. Eto mae pwyntiau newid allweddol, yn aml yn cael eu catalyddu gan ddigwyddiadau penodol. Enghraifft nodedig yw Ymchwiliad Cleveland 1987. Mae'r Ymchwiliad hwn i gam-drin rhywiol o 121 o blant - a'r modd y diagnosiwyd hwy'n feddygol fel rhai sydd wedi profi cam-drin rhywiol - yn cael ei ddisgrifio'n eang fel 'trobwynt.' Fe gafodd effaith sylweddol ar ddeddfwriaeth a pholisi ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol a chreodd ac ehangu nifer o trafodaethau amdano. Gellid gweld symudiadau pellach mewn ymateb i achosion proffil uchel eraill megis llofruddiaethau plant Sarah Payne a Holly Wells a Jessica Chapman. Arweiniodd yr achosion hyn at symudiadau a oedd yn canolbwyntio'n arbennig ar nodweddu a rheoli tramgwyddwyr.

Nododd y llenyddiaeth bum maes sefydliadol allweddol lle mae trafodaethau wedi digwydd mewn cysylltiad â cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r dadleuon hyn wedi cael goblygiadau ar gyfer ymatebion sefydliadol i gam-drin plant yn rhywiol. Dangosir y pum arena yn Ffigur 1 isod.

Ffigiwr 1: Pum arena sefydliadol allweddol

Maes y Gyfraith	Maes Polisi'r Llywodraeth	Y Maes Clinigol	Y Maes Gwaith Cymdeithasol	Maes y Cyfryngau
Dyma un o'r meysydd amlycaf lle mae trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol wedi digwydd. Mae newidiadau sylweddol yn y gyfraith ynghylch troseddau rhywiol wedi arwain at ddiffinio ac ailddiffinio nifer o droseddau sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol. Mae cysyniadau ynghylch plentyndod a hawliau plant yn allweddol i hyn.	Roedd llawer o bolisiau'r llywodraeth yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol rhwng y 1940au a 2017. Yn aml, mae ymholiadau ac achosion amlwg o gamdriniaeth wedi arwain at ddatblygu polisi'r llywodraeth ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Mae achos Cleveland yn enghraifft arbennig o berthnasol o hyn.	Yn y disgyblaethau iechyd, mae dulliau o ymdrin â thrangwyddwyr wedi cael eu dylanwadu gan fodelau meddygol o wyredd a phatholeg. Cafodd achos Cleveland effaith sylweddol ar rôl pediatregwyr a thystiolaeth feddygol mewn achosion o gam-drin rhywiol.	Mae'r maes amddiffyn plant wedi profi newidiadau helaeth. Mae digwyddiadau sydd wedi cael sylw amlwg yn y cyfryngau wedi'u cysylltu â pholisi ac ymarfer sy'n newid. Mae tensiynau rhwng cadw teuluoedd gyda'i gilydd a gwrando ar blant yn amlwg, fel y rhai rhwng grymuso ac amddiffyn.	Mae'r cyfryngau wedi bod yn gyfrwng i gyfleu nifer o drafodaethau allweddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, fel 'perylon dieithriaid' a 'phedofflyddion'.

Fframwaith ar gyfer deall yr trafodaethau allweddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol

Yn ystod y broses o nodi a dadansoddi trafodaethau yn y llenyddiaeth, adolygiadau o achosion difrifol a thestunau sefydliadol, daeth dau fath eang o drafodaethau i'r amlwg: trafodaethau pennaf a gwrth-drafodaethau.


Roedd yn ymddangos bod trafodaethau pennaf yn cymryd yn ganiataol fel 'gwirionedd' syniadau penodol yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Daethon nhw i'r amlwg mewn cysylltiad â'r gwahanol arenâu sefydliadol a ddisgrifiwyd uchod a gellir ystyried eu bod wedi dylanwadu'n sylweddol ar feddwl ar y pwnc yn y cyd-destunau hyn. Gellid rhannu'r rhain yn dri chategori trosfwaol:

- **Trafodaethau o wryiad:** Mae'r trafodaethau hyn naill ai'n gwyro cyfrifoldeb am gam-drin plant yn rhywiol i ffwrdd o dramgwyddwyr neu'n gwyro cyfrifoldeb i ffwrdd o sefydliadau. Nodweddir trafodaethau sy'n gwyro cyfrifoldeb i ffwrdd o dramgwyddwyr gan: leihau gweithredoedd tramgwyddwyr ac agweddau pellhau tuag at gamdriniaeth; rhoi'r bai ar famau; ac 'ymbellhau' oddi wrth dramgwyddwyr mewn rhyw ffordd. Nodweddir trafodaethau sy'n gwyro cyfrifoldeb i ffwrdd o sefydliadau gan themâu tebyg o leihau naill ai gofod sefydliad i ymyrryd neu'r gamdriniaeth rywiol ei hun.
- **Trafodaethau o wrthodiad:** Mae'r trafodaethau hyn yn gwadu naill ai'r niwed a achosir gan gam-drin plant yn rhywiol neu raddau'r gamdriniaeth. Mae gwadu bod cam-drin plant yn rhywiol yn niweidiol yn golygu ei fod yn gydsyniol neu'n lleihau ei effeithiau niweidiol. Mae gwadu graddau'r niwed yn rhannu edau gyffredin bod camdriniaeth wedi'i gorliwio neu wedi'i ffugio.
- **Trafodaethau o anghrediniaeth:** Mae'r rhain yn drafodaethau sy'n gwrthod derbyn yn llwyr bod cam-drin plant yn rhywiol wedi digwydd. Roedd llai o'r trafodaethau hyn o gymharu â'r ddau arall ond roedd tueddiadau i beidio â chredu honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn parhau yn edau gyson trwy gydol y cyfnod dan sylw.

Mynegwyd gwrth-trafodaethau gan y rhai hynny sydd ar ymylon pŵer cymdeithasol a gwleidyddol ac maent yn herio barnau pennaf. Gellir rhannu'r rhain yn ddau gategori trosfwaol, a dynnir ynghyd y dull maent yn blaenoriaethu lleisiau dioddefwyr a goroeswyr:

- **Trafodaethau o allu:** Roedd yr trafodaethau hyn yn herio dealltwriaeth ac esboniadau pennaf o gam-drin plant yn rhywiol drwy archwilio rôl pŵer a statws mewn cam-drin rhywiol.
- **Trafodaethau o gred:** Dechreuodd y trafodaethau hyn o'r sefyllfa o gredu ym modolaeth cam-drin plant yn rhywiol a'r niwed y gallai ei achosi i ddioddefwyr a goroeswyr. Fe wnaethon nhw geisio creu hinsawdd o gefnogaeth a chydabyddiaeth ar gyfer y rhai hynny a oedd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol trwy ganiatáu lle i siarad i'r rhai hynny a oedd wedi'u hymylu neu eu distewi.

Ffigur 2: Model cysniadol o drafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr



Arweiniodd cydnabod y pum categori eang hyn sy'n gorgyffwrdd, at ddatblygu model cysyniadol lle gellid trefnu ystod o drafodaethau mwy penodol. Nodwyd a strwythurwyd tri deg un o drafodaethau pennaf a chwe gwrth-drafodaeth trwy ddefnyddio'r model hwn. Dangosir hyn yn Ffigur 2 gyferbyn.

Fel mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, anaml iawn mae trafodaethau yn sefydlog ac yn ddigyfnawid. Newidiodd llawer eu natur dros gyfnod o amser wrth iddynt gael eu dylanwadu gan drafodaethau eraill a chroestorri â hwy, ac wrth iddynt gael eu defnyddio gan sefydliadau i amddiffyn penderfyniadau cyfredol neu flaenorol. Roedd rhai yn ddylanwadol ar adegau penodol ond aethon nhw'n segur dim ond i ailymddangos ar ffurf wedi'i newid, tra bod eraill yn parhau, er i'w hamlygrwydd godi a disgyn.

Gall gwrth-drafodaethau ennill mwy o dderbyniad i'r graddau y gallai setiau o syniadau a oedd ar un adeg yn ymylol ac yn cael eu cynnal yn unig gan grwpiau penodol mewn cymdeithas gael eu derbyn, cydnabod a hyd yn oed eu mabwysiadu'n fwy eang. Roedd enghreifftiau o agweddau gwrth-drafodaethau a gafodd dderbyniad a goruchafiaeth (er nid derbyniad cyffredinol) dros amser yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys:

- y farn bod cam-drin plant yn rhywiol yn bodoli ac yn drosedd, o ganlyniad i hynny roedd dioddefwyr a goroeswyr y trosedd hwnnw'n bodoli (gweler, er enghraifft, Alcock a Gray, 1993); ac (yn gysylltiedig â hyn)
- bod cam-drin plant yn rhywiol wedi achosi niwed i ddioddefwyr a goroeswyr (gweler er enghraifft, O'Dell, 2003).

Trafodaethau pennaf

Trafodaethau o wyriad

Gwyriad gan dramgwyddwyr

1940au - 1960au

Roedd y farn nad oedd cam-drin plant yn rhywiol yn rhywbeth cyffredin (wedi'i labelu yma fel trafodaeth o'r enw 'prin ac anarferol') wedi arwain at gydnabyddiaeth gyfyngedig gan weithwyr proffesiynol bod camdriniaeth yn digwydd (gweler, Nelson, 2016; Scott, 2001a; Dominelli, 1989; Eisenberg, Owens a Dewey, 1987). Hefyd roedd canfyddiad bod cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd mewn grwpiau penodol, megis dosbarthiadau cymdeithasol is, a methiant i gydnabod pa mor gyffredin oedd e ar draws pob grŵp cymdeithasol (a labelir yma fel y drafodaeth 'diwylliant beio'). Dyma un o'r trafodaethau a oedd yn cyflwyno tramgwyddwyr cam-drin plant yn rhywiol fel rhai 'ymbellhau'. Fe barhaodd hyn tan y 1970au (Nelson, 2016; Dominelli, 1989; Kelly, 1988; Lukianowicz, 1972). Roedd y syniad bod 'tramgwyddwyr yn wan' a heb allu rheoli eu gweithredoedd yn drafodaeth amlwg arall ar y pryd (gweler, Smart, 1999).

1970au - 1990au

Roedd y syniad y gellid priodoli cam-drin plant yn rhywiol i broblemau o fewn teuluoedd unigol a achosid i ryw raddau gan y fam (a labelir yma fel trafodaethau 'beio'r fam') yn amlwg yn ystod y cyfnod rhwng y 1970au a'r 1990au. Roedd trafodaethau penodol ynghylch 'trafferthion teuluol', 'mam gydgyllwyniol', a 'methu â diogelu' yn dylanwadu ar y dull roedd gweithwyr proffesiynol yn delio â cham-drin plant yn rhywiol (gweler, er enghraifft, Hooper a Humphreys, 1998; Kelly, 1988; MacLeod a Saraga, 1988). Awgrymwyd hefyd yn y llenyddiaeth fod barnau o'r fath yn dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth, yn arbennig yn yr 1980au a'r 1990au. Mae barnau ynghylch rolau rhyw o fewn y teulu hefyd wedi penderfynu sut y canfyddwyd cam-drin plant yn rhywiol. Mae disgwyliadau ynghylch rôl y fam wrth gadw ei phlant yn ddiogel wedi bwydo'r farn bod mamau plant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn gyfrifol am y gamdriniaeth a rhywsut wedi 'cydgyllwynio' ynddi neu 'wedi methu â diogelu' eu plant (gweler er enghraifft, Nelson, 2016; Kelly, 1988). Roedd y disgwyliadau hyn hefyd yn amlwg yn y modd y cynrychiolwyd mamau o fewn sampl yr adolygiad o achosion difrifol, gan awgrymu eu bod yn parhau hyd heddiw.

Fel oedd yn wir mewn degawdau cynharach, parhaodd y syniad o dramgwyddwyr fel rhai oedd yn 'ymbellhau' a rhywsut yn wahanol ac ar wahân i weddill cymdeithas. Roedd hyn yn arbennig o amlwg â'r defnydd o'r term 'pedoffilydd'. Daeth y term hwn o ddisgrifiadau meddygol o bobl a oedd yn arddangos atyniad rhywiol i blant yn y cyfnod blaenaeddfedrwydd, ond fe'i defnyddiwyd yn gynyddol yn y cyfryngau i ddisgrifio pob tramgwyddwr cam-drin plant yn rhywiol, yn arbennig y rhai y tu allan i'r teulu. Defnyddiwyd y term i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng tramgwyddwyr ac aelodau 'arferol' o gymdeithas (Salter, 2018; Cowburn a Dominelli, 2001; Wyre, 2000).

Roedd y ddamcaniaeth 'cylch o gamdriniaeth' - trafodaeth sy'n awgrymu bod profi cam-drin rhywiol yn ystod plentynod yn arwain at barhau â cham-drin - yn arbennig o boblogaidd ymhlith gweithwyr proffesiynol a pholisi yn yr 1980au a'r 1990au, er gwaethaf diffyg tystiolaeth glir i'w chefnogi. Roedd hyn yn amlwg mewn llenyddiaeth broffesiynol a pholisi a ddyfynodd gam-drin yn y gorffennol fel ffactor risg ar gyfer dod yn dramgwyddwr ac a ddefnyddiodd gam-drin yn y gorffennol fel esboniad am weithredoedd tramgwyddwr (gweler, Kelly et al., 2000; Brogi a Bagley, 1998).

2000au - 2010au

Roedd ystod o drafodaethau a oedd yn gwyro i ffwrdd o dramgwyddwr yn amlwg yn y 2000au. Priodolodd 'Diwyllant "Beio" ', er enghraifft, fai i gymunedau penodol drwy ganolbwyntio ar eu hil a'u grŵp ethnig neu ddiwylliannol. Roedd hon yn ffordd arall o weld tramgwyddwyr fel pobl nad oedd yn rhan o gymdeithas 'normal'. Roedd hyn yn amlwg, er enghraifft, yn y ffocws diweddar ar hil mewn dadl gyhoeddus ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac, yn benodol, y sylw a roddwyd i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys tramgwyddwyr gwrywaidd o Dde Asia a dioddefwyr Gwyn, heb unrhyw sylw tebyg a roddwyd i dramgwyddwyr a dioddefwyr a goroeswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (gweler, Gill and Harrison, 2015; Tufail, 2015; Cockbain, 2013).

Yn fwy diweddar, cyflwynwyd tramgwyddwyr fel rhai sy'n agored i niwed (wedi'u labelu yma fel y drafodaeth 'tramgwyddwyr sy'n agored i niwed'), yn arbennig mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Fodd bynnag, fe'i gweithredwyd yn anghyson, â phlant a oedd yn troseddu'n rhywiol yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth ond sydd yn aml yn cael eu trin yn yr un ffordd â throseddwr rhyw sy'n oedolion (Smith et al., 2014).

Yn gorgyffwrdd â chyflwyno tramgwyddwyr fel rhai oedd yn wan neu'n agored i niwed oedd y syniad bod tramgwyddwyr yn cam-drin plant oherwydd bod rhywbeth 'yn bod' arnynt a oedd yn eu gyrru i droseddu (er enghraifft, Groth et al., 1982, a ddyfynwyd yn Taylor a Quayle, 2003). Roedd y mathau hyn o syniadau'n amrywio o'r syniad clinigol poblogaidd o 'ddiffygion gwybyddol' (lle gwelwyd bod gan dramgwyddwyr gredau ystumiedig am blant) i rywioldeb ac ymddygiad cymdeithasol trafferthus. Hefyd roedd agweddau ymhlith y cyhoedd bod gan dramgwyddwyr 'feddyliau gwyrdröedig' neu ddiffygion moesol (Frameworks Institute, 2016).

Roedd y syniad o 'berygl dieithryn' - bod tramgwyddwyr cam-drin plant yn rhywiol yn bodoli y tu allan i amgylchedd y cartref a'r teulu - yn dylanwadu'n gryf ar agweddau ac ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol ymhlith y cyhoedd (Williams a Hudson, 2013; Jewkes, 2010; Kitzinger, 2004). Enghraifft o hyn oedd y gefnogaeth gyhoeddus o blaid cynlluniau hysbysu troseddwr rhyw a'r pwyslais ar reolaethau allanol ac archwilio unigolion a fyddai'n cysylltu â phlant fel modd atal cam-drin plant yn rhywiol (er enghraifft McAlinden, 2006). Roedd y ffordd hon o feddwl eto'n pwysleisio'r syniad o wahaniaeth rhwng tramgwyddwyr a gweddill cymdeithas a gallai fod wedi arwain at anwybyddu cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu. Gellid gweld ffocws presennol y cyfryngau ar 'bedoffilyddion' ar-lein fel amrywiad o hyn (Jewkes and Wykes, 2012).

Mae rhai adolygiadau ac ymholiadau nad ydynt yn ddiweddar a oedd yn ystyried cam-drin plant yn rhywiol wedi gosod cam-drin mewn cyd-destun cymdeithasol neu hanesyddol yn y gorffennol ac wedi

gwneud gwahaniaeth clir rhwng yr 'amser gwahanol' hwn a'r cyfnod presennol (Furedi, 2013; Gray ac Watt, 2013). Yr awgrym oedd bod yr agweddau ac ymddygiadau hyn wedi'u cyfyngu i'r gorffennol, ac nad oeddent yn broblem yn y presennol. Mae sefydliadau wedi cael eu beirniadu am ddefnyddio'r naratif hwn er mwyn cyfiawnhau'r camau a gymerwyd yn y gorffennol ac i osgoi atebolrwydd (Jay, 2014).

Gwriad i ffwrdd o sefydliadau

2000au - 2010au

Yn ogystal â'r trafodaethau a wyrodd sylw i ffwrdd o dramgwyddwyr, hefyd roedd amrywiaeth o drafodaethau a oedd yn gwyro cyfrifoldeb i ffwrdd o sefydliadau yn y 2000au. Mae'r disgrifiadau hyn wedi'u labelu yma fel 'ychydig o afalau drwg', 'sefydliad fel dioddefwr', 'palwyr aur', 'gwneud plant ac/neu rieni'n gyfrifol', a 'theulu fel man gwarchoddedig'.

Un ymagwedd at ddeall cam-drin plant yn rhywiol mewn cysylltiad â sefydliadau oedd y syniad ei fod yn broblem o 'ychydig o afalau drwg', neu grŵp bach ac unigryw o unigolion y gellid eu hynysu a'u cadw allan o sefydliadau trwy brosesau asesu risg ac archwilio (Hartill, 2013). Rhoddodd hyn bwyslais ar gyfyngiadau a gweithredoedd tramgwyddwyr unigol yn hytrach na'r cyd-destun sefydliadol y buont yn troseddu ynddo (Stanley, 1999). Dadleuwyd bod yr ymagwedd hon wedi bod yn amlwg yn ymateb sefydliadau fel yr Eglwys Gatholig i honiadau a digwyddiadau cam-drin plant yn rhywiol ac mae hefyd wedi gyrru polisiâu sy'n canolbwyntio ar drin troseddwyr unigol a dewis a recriwtio staff (Death, 2015; Sullivan a Beech, 2002).

Roedd trafodaeth arall a labelir yma fel 'sefydliadau fel dioddefwyr' yn ystyried naratif lle'r oedd y sefydliadau'n eu cyflwyno eu hunain fel dioddefwyr tramgwyddwyr a oedd wedi cam-drin plant o fewn y cyd-destun hwnnw (Gilligan, 2012), neu ddiodeffwyr cyhuddiadau anghyfiawn o gamdriniaeth yn deillio o ymchwiliadau a oedd yn rhy selog. Awgrymodd trafodaeth arall (wedi'i labelu yma fel 'palwyr aur') y byddai rhai dioddefwyr yn gwneud honiadau o gam-drin er budd ariannol (ym marn y drafodaeth hon) (gweler, er enghraifft, Webster, 2005).

Ffordd arall y cafodd cyfrifoldeb am gam-drin plant yn rhywiol ei wyro i ffwrdd o sefydliadau oedd trwy ganolbwyntio ar rôl rhieni a phlant wrth eu cadw eu hunain yn ddiogel (wedi'i labelu yma fel 'gwneud rhieni/plant yn gyfrifol'). Gallai rhaglenni codi ymwybyddiaeth i rieni a phlant (fel arfer yn anfwriadol) atgyfnerthu hyn (Frameworks Institute, 2016). Yn gyffredinol, roedd barnau ar y berthynas rhwng y teulu a'r wladwriaeth yn fwy cyffredinol hefyd yn dylanwadu ar sut y cafodd cam-drin plant yn rhywiol ei ddeall a sut yr ymatebwyd iddo, â'r gred fod teuluoedd yn fan gwarchoddedig a ddylai fod yn rhydd rhag ymyriadau gan y wladwriaeth (a labelir yma fel y drafodaeth 'y teulu fel man gwarchoddedig') (Ward a Patel, 2006; Fox Harding, 1991).

Gwriad a gwrthodiad yn gorgyffwrdd

1940au - 1960au

Roedd y drafodaeth o 'blentyn deniadol' - y syniad bod plant yn meddu ar rywioldeb cynhenid ac, felly, y gallent chwilio am weithgareddau rhywiol - yn amlwg yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y syniad hwn yn gwyro'r cyfrifoldeb i ffwrdd o weithredoedd y tramgwyddwr i ymddygiad y plentyn ac, ar yr un pryd, yn gwadu'r niwed a wnaed i blant trwy gam-drin rhywiol trwy eu portreadu fel y cychwynwyr iddo (Olafson, Corwin a Summit, 1993; Kelly, 1988).

1970au - 1990au

Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd parhad syniadau tebyg i'r 'plentyn deniadol' â thrafodaethau 'plant fel bodau rhywiol' a 'merched anfoesol'.

Roedd y syniad o blant fel bodau rhywiol yn effeithio ar y ffordd roedd pobl yn meddwl am gam-drin plant yn rhywiol (Green a Masson, 2002; Ward a Keenan, 1999; Campbell, 1988). Yn y drafodaeth hon, nid awgrymwyd bod plant yn chwilio am weithgarwch rhywiol ond yn hytrach bod ganddynt rywioldeb cynhenid ac felly y gallent ymateb i gynigion rhywiol gan oedolion. Nodweddyd y rhywioldeb canfyddedig hwn o blant fel rhywbeth bygythiol ac fe gynorthwyodd i greu pryder proffesiynol ynghylch bod yn agored i fynegiadau rhywioldeb gan blant, weithiau'n arwain at ddiffyg ymyrraeth (Green 2005; Farmer and Pollock, 2003). Hefyd ysyriwyd bod merched yn arbennig yn ymddwyn yn 'anfoesol' ac yn eu rhoi eu hunain mewn perygl o gael eu cam-drin trwy eu hymddygiad eu hunain, a oedd yn tynnu'r ffocws oddi ar dramgwyddwyr y cam-drin ac yn gwrthod y niwed a achoswyd ganddo (Gohir, 2013; Ayre a Barrett, 2000). Roedd hyn yn amlwg yn y modd y disgrifiwyd camfanteisio'n rhywiol ar ferched fel 'puteindra plant' a disgrifiwyd merched fel rhai a oedd yn 'cymryd risg' (er enghraifft, Berelowitz et al., 2012).

2000au - 2010au

Yn y 2000au, eglurodd rhai y camfanteisio'n rhywiol ar blant trwy'r hyn a ddehonglwyd fel 'dewisiadau' y plant eu hunain. Er enghraifft, y syniad bod plant yn fodlon cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol yn gyfnewid am dâl neu wobr (Pearce, 2014, 2013). Fodd bynnag, efallai roedd y plant hyn wedi bod yn gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau gorfodol lle roedd eu gallu a'u grym i wneud penderfyniadau yn gyfyngedig (Pearce, 2014; Coy, 2009; Melrose, 2004). Roedd hyn yn effeithio ar y ffordd roedd gweithwyr proffesiynol yn nodi ac yn ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Gillespie and Ost, 2016; Reisel, 2016) ac amlygodd adolygiadau achos difrifol sut yr ystyriwyd bod plant yn caniatáu i weithgaredd rhywiol yn hytrach na'u bod yn ddiodefwr camdriniaeth a oedd angen cefnogaeth neu ymyrraeth - mae'r drafodaeth hon felly wedi'i labelu yma fel 'cymeradwyo caniatâd'.

1940au - 2010au

Mewn cyferbyniad â hyn, trwy gydol y cyfnod hwn yn gyffredinol, roedd plant hefyd yn cael eu hystyried yn gynhenid ddiniwed, ac roedd y fersiwn delfrydol o hyn yn golygu bod plant yn anrhywiol ac yn anwybodus ac felly'n annhebygol o ymgymryd â gweithgareddau rhywiol (Green, 2005; Ennew, 1986). Roedd y ffordd hon o feddwl - a labelir yma fel y drafodaeth 'diniweidrwydd plentyndod' - ar y naill law, yn amlygu bregusrwydd plant a'r ffaith eu bod yn agored i niwed. Ar y llaw arall, mae rhai wedi dadlau ei fod wedi dwysáu eu diffyg grym a'u dibyniaeth (Dominelli, 1989). Gellid dadlau bod y gwerth sydd ynghlwm wrth ddiniwedrwydd plant hefyd yn stigmatiddio'r plant hynny y canfuwyd bod eu diniweidrwydd wedi'i gollu (Scott, 2001a), ac yn atal gweithwyr proffesiynol rhag ymgysylltu â phlant fel bodau rhywiol ac felly'n mynd i'r afael â materion cam-drin a chamfanteisio rhywiol (Hackett et al., 2015; Green, 2005).

Trafodaethau o wrthodiad

Gwadu niwed

1940au - 1960au

Roedd yn ymddangos bod trafodaethau bod cam-drin plant yn rhywiol 'ddim yn niweidiol' (y syniad nad oedd rhyw rhwng oedolion a phlant yn arwain at niwed parhaol) a bod 'ymyrraeth yn waeth' (y syniad bod cynnwys gweithwyr proffesiynol ac o bosibl symud plentyn i ffwrdd o'u rhwydwaith teuluol yn fwy negyddol na byw â chamdriniaeth rywiol barhaus) yn arbennig o amlwg ar y pryd. Hefyd ystyriwyd bod y niwed a wnaed i blant wedi ei leihau pan oedd y gamdriniaeth yn digwydd o fewn 'amgylchedd teuluol cariadus' (Nava, 1988). Syniadau bod lefelau niwed yn ymwneud â rhywedd. Er enghraifft, ystyriwyd bod cam-drin bechgyn gan dramgwyddwyr gwrywaidd yn fwy niweidiol na cham-drin merched gan ddynion oherwydd bod y cyntaf yn cael ei ystyried fel gweithgaredd cyfunrywiol ac felly'n cael ei gategoreiddio fel llai 'normal' (Green, 2005). Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r syniad bod y niwed a achoswyd

mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn ganlyniad i'r ymateb i'r gamdriniaeth yn hytrach na'r gamdriniaeth ei hun (gweler er enghraifft, Kinsey et al., 1953 a ddyfynwyd yn Kelly, 1988 ac West, 1981).

1970au - 1990au

Cafodd y syniad o 'bedoffilydd fel cyfeiriadedd rhywiol' fwy o dderbyniad ar yr adeg hon, yn arbennig yn y degawdau cynharach. Dyma'r syniad y dylid cydnabod pedoffilia, neu'n fwy penodol, atyniad rhai dynion i fechgyn a'r glasoed, fel cyfeiriadedd rhywiol cyfreithlon. Cefnogwyd hyn gan nifer o unigolion a grwpiau, gan gynnwys y Paedophile Information Exchange (PIE) yn y DU (Li, 1991; Thorstad, 1991). Roedd y syniad hwn wedi bod yn gysylltiedig â'r mudiad rhyddhau rhywiol, er gwaethaf ymbellhau rhwng y ddau yn y 1980au. Roedd llenyddiaeth glinigol yn gweld cyfunrhywiaeth a phedoffilia fel ffurfiau cysylltiedig ar wyriad rhywiol (Malón, 2012) ac roedd trafodaethau'r cyfryngau a gwleidyddol yn cysylltu, a hyd yn oed yn cyfuno, cyfunrhywiaeth a phedoffilia ar adegau (Robinson, 2011).

2000au - 2010au

Daeth y syniad bod cam-drin plant yn rhywiol 'ddim yn rhy niweidiol' i'r amlwg yn fwy diweddar mewn cysylltiad ag Images Depicting Child Sexual Abuse (IDCSA) (Horsman, 2016). Cydnabuwyd bod y defnydd o'r term 'pornograffi plant' yn drafferthus oherwydd cvysylltiadau â gweithgarwch rhywiol cydsyniol (Edwards, 2000). Hefyd nodweddiwyd y ffordd yr ymdriniwyd ag achosion IDCSA yn ôl y gyfraith a hefyd y ffordd y gweithredwyd cosbau cyfreithiol fel arwydd o farnau amwys ynghylch y niwed a achosir ganddynt (McManus ac Almond, 2014; Edwards, 2000).

Gwadu graddau

1970au - 1990au

O fewn y drafodaeth ehangach o wadu graddau cam-drin plant yn rhywiol, roedd yn ymddangos bod trafodaethau ynghylch 'gweithwyr proffesiynol gor-selog', 'panig moesol', a 'helfa gwrrachod' yn amlwg yn ystod y 1970au i'r 1990au. Dadleuwyd â graddau cam-drin plant yn rhywiol trwy'r syniad bod gweithwyr proffesiynol 'gor-selog' wedi gwthio neu annog plant i ddatgelu camdriniaeth rywiol, wedi credu honiadau wedi'u gorliwio o gamdriniaeth, neu wedi ymyrryd yn rhy gyflym (Taylor-Browne 1997a; Cream, 1993). Roedd termau megis 'panig moesol' a 'helfa gwrrachod' a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â cham-drin plant yn rhywiol yn tynnu ar naratif tebyg. Disgrifiodd y term blaenorol ymatebion anghymesur neu afresymol canfyddedig i fygythiadau cymdeithasol megis cam-drin plant yn rhywiol, a thrwy hynny fe ostyngodd graddfa'r broblem (Clapton, Cree a Smith, 2013; Critcher, 2002). Hefyd gwadodd y term 'helfa gwrrachod' raddfa cam-drin plant yn rhywiol drwy awgrymu bod honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn ffug ac wedi'u gyrru gan awydd i niweidio unigolyn neu sefydliad (gweler, er enghraifft, Webster, 2005).

Gwrthodiad ac anghrediniaeth yn gorgyffwrdd

1970au - 1990au

Yn y 1990au daeth y cysyniad o 'Syndrom Cof Ffug' i'r amlwg, lle gwelwyd adroddiadau neu ddatgeliadau unigol o gam-drin plant yn ganlyniad i atgofion ffug o gam-drin (Scott 1997). Gellid gweld hyn yn drafodaeth o wrthodiad (oherwydd efallai y byddai'r esboniad clinigol o'r 'syndrom cof ffug' wedi'i ddefnyddio i leihau graddfa cam-drin plant yn rhywiol) ac o anghrediniaeth (gan y gallai fod wedi'i ddefnyddio i danseilio hygredd dioddefwyr a goroeswyr). Ystyriwyd iddi gael dylanwad ar yr arena gyfreithiol (Nelson 2016).

2000au - 2010au

Daeth y drafodaethaeth 'gwrywdod yn anghydnaws ag erledigaeth' i'r amlwg, yn fwyaf nodedig yn y 2000au. Fe'i nodwyd yn gyson yn y llenyddiaeth gan ddioddefwyr a goroeswyr a gweithwyr proffesiynol fel rhwystr i gydnabod camfanteisio ar fechgyn (er enghraifft, Beckett et al., 2013; Gohir, 2013) ac roedd yn amlwg mewn rhai adolygiadau achos difrifol. Gellid olrhain y syniad bod gwrywdod yn anghydnaws ag erledigaeth yn ôl i'r arfer o gysylltu gwrywdod â gallu rhywiol a stereoteipiau ynghylch dynion fel unigolion cryf (McNaughton Nicholls, Harvey a Paskell, 2014).

Trafodaethau o anghrediniaeth

Tra y disgrifiai rai ffynonellau yn y llenyddiaeth ddiwylliant blaenaf o gredu plant 'ar bob cyfrif' (Beckett, 2002), roedd hefyd dystiolaeth nad oedd hyn bob amser yn wir. Dangosodd y drafodaeth 'plant yn celwydda' fod plant wedi'u cynrychioli fel unigolion sy'n gallu, neu hyd yn oed sy'n debygol o, wneud honiadau ffug ynghylch cam-drin (Nelson 2016). Awgrymir y gred hon gan weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phlant a oedd yn amharod i amau bod cydweithiwr yn cyflawni cam-drin plant yn rhywiol (Horwath, 2000, ei dyfynnu yn Timmerman a Schreuder, 2014, tud. 719) ac, yn hanesyddol, gellid ei gweld mewn agweddau cyfreithiol tuag at blant fel tystion (Temkin, 2002). Awgrymodd y ddamcaniaeth 'Ymddieithrio Rhieni' a ddechreuodd yn yr Unol Daleithiau yn yr 1980au ac a oedd â rhywfaint o ddylanwad ymhlith gweithwyr proffesiynol cyfreithiol a diogelu plant, fod plant yn destun 'cyflyru' gan un rhiant a oedd yn eu hannog i wneud honiadau ffug o gam-drin yn erbyn y llall (Nelson 2016). Roedd y syniad bod plant yn celwydda am gamdriniaeth rywiol yn ymddangos mewn llawer o'r adolygiadau achos difrifol yn y sampl, â'r anghrediniaeth hon yn arwain at ddiffyg gweithredu neu ymyrryd proffesiynol. Mewn sawl un o'r adolygiadau achos difrifol, roedd yn ymddengos hefyd fod plant yn cael eu dal mewn 'magl ddweud' oherwydd pan nad oeddent yn datgelu camdriniaeth, cymerwyd hyn fel tystiolaeth nad oedd camdriniaeth yn digwydd, ond pan oeddent, ni chredwyd hwy.

Gwrth-drafodaethau

Roedd y gwrth-drafodaethau'n yn pwysu a mesur cysylltiadau pŵer a chred, cydnabyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr. Deilliodd y ddau mewn mudiadau ffeministaidd a goroeswyr, ac fe weithredon nhw i wrthsefyll trafodaethau pennaf ynghylch gwyrriad, gwrthodiad ac anghrediniaeth.

Trafodaethau o allu

Roedd y trafodaethau o allu yn herio dealltwriaeth ac esboniadau pennaf o gam-drin plant yn rhywiol drwy archwilio rôl gallu a statws mewn cysylltiad â phwy wnaeth yr hyn y mae.

1970au - 1990au

Roedd y drafodaeth o 'drosedd dylanwadu' yn disgrifio camdriniaeth lle'r oedd unigolyn mewn sefyllfa flaenllaw, nerthol neu freintiedig (er enghraifft, tad, offeiriad neu hyfforddwr chwaraeon) yn manteisio ar ddioddefwr a oedd yn llai nerthol a breintiedig o ran ei (h)oesran, rhyw, hil neu ddsbarth. Roedd ystod o ffactorau a allai atgyfnerthu ymdeimlad o nerth oedolion dros blant. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys syniadau ynghylch bregusrwydd naturiol plant, a allai hwyluso'r broses o dwyllo plant mewn sefyllfaoedd camdriniol (Nelson, 2016; Campbell, 2015; Gallagher, 2000; Cream 1993).

Roedd y trafodaethau o 'adeiladu gwrywdodau' yn cydnabod rôl rhyw wrth strwythuro cysylltiadau nerth. Mae ffeministiaid wedi beirniadu esboniadau pennaf o gam-drin plant yn rhywiol a oedd yn defnyddio ddiffiniadau stereoteipiol o wrywdod lle defnyddiwyd 'egni rhywiol gwryw' cynhenid neu 'rywioldeb afreolus' i esbonio pam mae dynion yn cyflawni trais rhywiol a oedd yn golygu y gellid rhoi llai o fai arnynt (Barter, 2006; Green, 2005; Dominelli, 1989; MacLeod a Saraga, 1988). Yn gysylltiedig â hyn oedd nodi amgylchedd arweinyddiaeth 'macho' mewn llawer o cyfundrefnau sefydliadol a greodd ddiwylliant lle daeth bwlio rhywiol yn normal (Colton 2002; Waterhouse, 2000; Stanley, 1999).

2000au - 2010au

Yn y 2000au, heriodd y drafodaeth o 'gyd-destun ffafriol' y farn bod plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan 'ychydig o afalau drwg'. Yn hytrach, edrychodd ar strwythurau a chyfleoedd o fewn sefydliadau a oedd yn creu amgylchedd ffafriol i gam-drin rhywiol ddigwydd. Gwrthododd y drafodaeth hon y syniad y gellid stopio cam-drin plant un rhywiol trwy eithrio a gwarchod yn erbyn pedoffilyddion unigol 'sâl' neu 'anghywir'. Yn lle hynny, canolbwyntiodd ar yr angen i sefydliadau gan gynnwys meithrinfeydd, ysgolion,

cartrefi plant ac eglwysi, fynd i'r afael â'r ffaith bod 'bydoedd caeedig' â 'parthau o anghosbedigaeth' yn bodoli lle'r oedd 'diwylliant o ddistawrwydd ac awdurdodyddiaeth' yn bodoli (Salter, 2018; Hartill, 2013; Dale ac Alpert, 2007; Colton, 2002; Waterhouse, 2000; Herman a Hirschman, 1977).

Nerth a chred yn gorgyffwrdd

1970au - 1990au

Roedd gan ddatganiadau o bŵer a chred yr awydd cyffredin i hyrwyddo 'lleisiau plant', a oedd yn wrth-drafodaeth arall a nodwyd. Daeth y drafodaeth hon i'r amlwg fel un a oedd yn arbennig o amlwg yn ystod y 1970au i'r 1990au ac amlygodd nad oedd plant yn cael eu clywed yn aml oherwydd y gwahaniaeth nerth rhwng oedolion a phlant. Pwysleisiodd fod dibyniaeth strwythurol plant yn galw am ymrwymiad clir gan oedolion a sefydliadau i wrando ar blant a'u trin fel goddrychau eu bywydau eu hunain, nid fel gwrthrychau pryder. Mae nifer o bolisiau a chanllawiau cenedlaethol a rhyngwladol mwy diweddar yn fyfyrion well ar y syniad bod rhaid clywed lleisiau plant ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Llywodraeth EM, 2015b; Tŷ'r Esgobion, 2011; Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, 2005; Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon 2005; Llywodraeth EM, 2004; Butler-Sloss, 1988).

Trafodaethau o gred

Creodd y trafodaethau o gred hinsawdd o gefnogaeth a chydabyddiaeth i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a'u gosod fel arbenigwyr doeth yr oedd y profiadau roeddent wedi'u byw yn ffynhonnell wybodaeth.

1970au - 1990au

Un o'r gwrth-drafodaethau a oedd yn amlwg yn y 1970au i'r 1990au oedd 'lle i siarad', a oedd yn edrych ar y deinameg a greodd neu a gyfyngodd leoedd i ddiodefwyr a goroeswyr siarad am gam-drin plant yn rhywiol ac a gydnabyddwyd gan sefydliadau (Exton a Kamaljit, 2013; Whittier, 2009; Naples, 2003; Alcock a Gray, 1993). Gallai'r lleoedd hyn agor pan oedd 'amser dweud' yn cydgyfeirio â 'maes gwranddo' (Carlsson, 2009) ac yn aml yr oeddent yn pwysu a mesur themâu, megis distarwydd, trawma a thrawsnewid. Ar gyfer bechgyn, roedd rhwystrau i siarad yn gysylltiedig ag ofn homoffobia (Hunter, 2010).

Roedd gwrth-drafodaeth arall yn y cyfnod hwn yn ymwneud â 'niwed, trawma, a difrod' ac yr oedd yn ystyried sut y gallai diodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol ganolbwyntio ar adfer a iachau unigolion. Edrychodd yn feiriadol ar 'dorri'r distawrwydd' fel dull o fynd i'r afael â niwed, trawma a difrod a achosir gan gam-drin plant yn rhywiol oherwydd, tra gallai siarad yn uchel helpu i ryddhau, gallai hefyd atgyfnerthu trafodaethau pennaf. Er enghraifft, pan wahoddwyd diodefwyr a goroeswyr i siarad ar y teledu am 'werth sioc' yn hytrach na chael eu hystyried fel goddrychau eu bywydau eu hunain â'u hawdurdod eu hunain (Naples, 2003; Alcock a Gray, 1993). Heriwyd y gydnabyddiaeth o'r effeithiau niwed, trawma a difrod gan y syniad o 'fod yn ddiodefwyr' a oedd yn ceisio ail-leoli diodefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn rhywun fel unigolion digymorth, di-rym a dibynnol trwy awgrymu eu bod yn cofleidio, neu'n ymhyfrydu mewn, 'hunaniaeth ddiodefwyr' (Whittier, 2009). Dyma enghraifft o'r hyn a ddisgrifiodd Nelson (2016) fel 'adlach'.

Casgliadau

Nod yr REA hwn oedd archwilio beth y gallai'r llenyddiaeth bresennol ei ddweud wrthym am y trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr o'r 1940au hyd at 2017. Nodwyd cyfanswm o 31 o drafodaethau a chwe gwrth-drafodaeth rhwng y 1940au a 2017 o'r llenyddiaeth a adolygwyd. Gellid categorio'r drafodaethau pennaf fel trafodaethau o wyriad (gan dramgwyddwyr a sefydliadau), gwrthodiad (niwed a graddau) ac anghrediniaeth. Roedd y gwrth-drafodaethau yn cynnwys trafodaethau nerth a chred. Cyflwynodd hyn ddarlun cymhleth o sut y cafodd cam-drin plant yn rhywiol ei gydnabod, sut y gwnaed synnwyr ohono

a sut yr ymatebwyd iddo dros amser. Dangosodd hefyd nad oedd diffiniad, esboniad na damcaniaeth cytunedig, unffurf o gam-drin plant yn rhywiol dros y degawdau hyn.

Nid yw'r trafodaethau hyn wedi bodoli ar wahân i'w gilydd, ac fe'u dylanwadwyd gan wybodaeth sy'n dod i'r amlwg a pholisi ac arfer sy'n datblygu. Yn aml, mae mewnwelediadau newydd mewn un ardal (nid bob amser, ac nid yn systematig) wedi cael eu codi mewn ardaloedd eraill, gan arwain at wahaniaethau ynglŷn â sut mae cam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei gydnabod, sut y gwnaed synnwyr ohono a sut yr ymatebwyd iddo. Roedd y draffodaeth ynghylch 'lleisiau plant,' er enghraifft, yn amlygu'r angen i blant gael eu clywed ac i blant gael eu trin fel goddrychau ar eu bywydau eu hunain, nid yn wrthrych pryder. Mae hyn bellach wedi'i ymgorffori mewn ystod o bolisiau a chanllawiau cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal ag yng ngwaith llawer o elusennau. Fodd bynnag, mae tensiwn wedi parhau rhwng plant fel gwrthrychau amddiffyn a phlant fel actorion cymdeithasol â lleisiau a hawliau.

Ail nod yr REA hwn oedd archwilio ym mha ffyrdd mae'r trafodaethau hyn wedi dylanwadu ar ymatebion sefydliadol i gam-drin plant yn rhywiol. Roedd hwn yn gwestiwn llawer mwy heriol ac un na ellid ei ateb yn llawn trwy'r llenyddiaeth a adolygwyd.

Roedd rhai eiliadau a digwyddiadau trobwynt sydd wedi newid yn sylweddol sut mae cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei drafod a'i ddeall ac wedi arwain at ddatblygiadau cyfreithiol, polisi a chymdeithasol parhaol, yn fwyaf nodedig Ymchwiliad Cleveland 1987. Ar adegau, cyflawnwyd cynnydd cyflym mewn cyfnod cymharol fyr, ond fel arfer mae hyn wedi bod mewn ymateb i ddigwyddiadau proffil uchel (Parton, 2016; Davidson, 2008). Mae hyn yn aml yn wir pan yw 'amser dweud' (dynameg mewn cymdeithas sy'n creu manau lle mae'n bosib siarad am gam-drin plant yn rhywiol) yn cydgyfeirio â 'maes gwranddo' (pan yw'n fwy tebygol o gael ei glywed gan sefydliadau a phobl mewn sefyllfa o nerth) (Carlsson, 2009).

Roedd canfyddiadau allweddol ynglŷn â dylanwad trafodaethau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ar ymatebion sefydliadol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Mae sefydliadau sy'n ymateb i honiadau am gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau teuluol wedi cuddio gweithredoedd tramgwyddwyr trwy ganolbwyntio ar y teulu cyfan, a defnyddio fersiynau amrywiol o feio'r fam.
- Roedd y draffodaeth o 'drosedd dominydu' yn gliriach mewn cysylltiad â chwaraeon a'r Eglwys Gatholig ac, i raddau lleoliadau gofal preswyl hefyd, lle darparodd rôl awdurdod o fewn y sefydliad - megis hyfforddwr neu offeiriad - rym ac adnoddau ychwanegol i dramgwyddwyr.
- Roedd canlyniad polisi o weld tramgwyddwyr fel 'ychydig o afalau drwg', yn arbennig ar ddiwedd y 1990au a'r 2000au, yn canolbwyntio ar sgrinio risg, recriwtio a chofnodion troseddol fel yr ymateb diogelu, yn hytrach nag archwilio sut y gallai diwylliannau mewnol fod ynghlwm wrth wneud camdriniaeth rywiol yn bosibl ac wrth fethu ag ymateb yn briodol i gwynion a phryderon.
- Bu 'mae plant yn celwydda' wedi bod yn draffodaeth barhaol mewn ymatebion cyfreithiol.
- Mae amrywiaeth o draffodaethau o gred wedi dod i'r amlwg ers y 1980au a oedd yn ei wneud yn haws i ddioddefwyr a goroeswyr siarad am eu profiadau, er bod rhai rhwystrau wedi parhau.

Cyflwynodd canfyddiadau'r REA hwn nifer o gwestiynau y gellid eu harchwilio ymhellach, gan gynnwys sut mae gwahanol draffodaethau wedi dylanwadu ar ymatebion sefydliadau penodol i gam-drin plant yn rhywiol dros amser; sut yr oedd sefydliadau neu broffesiynau penodol yn deall (neu y dylent fod wedi deall) cam-drin plant yn rhywiol mewn eiliadau penodol mewn amser, a pha mor ddylanwadol oedd trafodaethau yn y broses hon.

Cyfeiriadau

- Alcoff, L. a Gray, L. (1993). Trafodaeth Goroeswr: Tramgwydd neu Wellhad? *Signs*, 18 (2), tt.260–290.
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. (2005). *Cyfarwyddyd ar Ymchwilio i Gam-drin Plant a Diogelu Plant*. Bramshill: Canolfan Genedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Plismona.
- Ayre, P. a Barrett, D. (2000). Pobl Ifanc a Phuteindra: diweddlgo i'r dechreuad? *Plant & Chymdeithas*, 14 (1), tt.48–59.
- Barter, C. (2006). Trafodaeth o feio: datgysylltu (hetero)rywiol, trais rhywiol cyfoedion a chartrefi preswyl i blant. *Plant & Gwaith Cymdeithasol Teuluol*, 11 (4), tt.347–356.
- Beckett, C. (2002). Y trosiad helpa wrach (a chyhuddiadau yn erbyn gweithwyr gofal preswyl). *Cylchgrawn Prydeinig o Waith Cymdeithasol*, 32 (5), tt.621–628.
- Beckett, H., Brodie, I., Factor, F., Melrose, M., Pearce, J., Pitts, J., Shuker, L., ac Warrington, C. *It's wrong-but you get used to it': a qualitative study of gang-associated sexual violence towards, and exploitation of, young people in England*. tt.1–54.
- Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G., a Gulyurtluet, S. (2012). *Meddyliwn mai fi oedd yr unig un*. Yr unig un yn y byd. Llundain: Office of the Children's Commissioner [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://www.childrenscommissioner.gov.uk/sites/default/files/publications/I thought I was the only one in the world.pdf](https://www.childrenscommissioner.gov.uk/sites/default/files/publications/I%20thought%20I%20was%20the%20only%20one%20in%20the%20world.pdf).
- Brogi, L. a Bagley, C. (1998). Abusing Victims: Detention of Child Sexual Abuse Victims in Secure Accommodation. *Adroddiad ar Gam-drin Plant*, 7 (5), tt.315–329.
- Butler-Sloss, E. (1988). *Adroddiad yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Cleveland 1987*. Llundain: HMSO.
- Campbell, B. (1988). *Unofficial Secrets: Child Sexual Abuse, the Cleveland Case*. Llundain: Virago.
- Campbell, B. (2015). After neoliberalism: the need for a gender revolution. Yn: Hall, S., Massey, D. a Rustin, M. (Golygyddion). *After neo-liberalism: The Kilburn Manifesto*. Llundain: Laurence & Wishart. tt.69–84.
- Carlsson, N. (2009). *A time of telling: women working through sexual abuse*. Prifysgol Gotheburg, Cyfadran Gwyddorau Cymdeithasol.
- Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon. (2005). Safonau ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon. Caerlŷr: Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon.
- Clapton, G., Cree, V. E. a Smith, M. (2013). Moral panics and social work: Towards a sceptical view of UK child protection. *Polisi Cymdeithasol Beirniadol*, 33 (2), tt.197–217.
- Cockbain, E. (2013). Grooming and the 'Asian sex gang predator': the construction of a racial crime threat. *Race & Class*, 54 (4), tt.22–32.
- Colton, M. (2002). Factors associated with abuse in residential child care institutions. *Plant & Chymdeithas*, 16 (1), tt.33–44.
- Cowburn, M. a Dominelli, L. (2001). Masking hegemonic masculinity: reconstructing the paedophile as the dangerous stranger. *British Journal of Social Work*, 31 (3), tt.399–415.

- Coy, M. (2009). 'Moved around like bags of rubbish nobody wants': how multiple placement moves can make young women vulnerable to sexual exploitation. *Adroddiad ar Gam-drin Plant*, 18 (4), tt.254-266.
- Cream, J. (1993). Child sexual abuse and the symbolic geographies of Cleveland. *Environment and Planning D-Society & Space*, 11 (2), tt.231-246.
- Critcher, C. (2002). Media, Government and Moral Panic: the politics of paedophilia in Britain 2000-1. *Astudiaethau Newyddiaduraeth*, 3 (4), tt.521-535.
- Dale, K. A. ac Alpert, J. L. (2007). Hiding behind the cloth: child sexual abuse and the Catholic Church. *Journal of child sexual abuse*, 16 (3), tt.59-74.
- Davidson, J. (2008). *Child sexual abuse: media representations and government reactions*. Abingdon: Routledge Cavendish.
- Death, J. (2015). Bad Apples, Bad Barrel: Exploring Institutional Responses to Child Sexual Abuse by Catholic Clergy in Australia. *International Journal for Crime, Justice and Social Democracy*, 4 (2), tt.94-110.
- Dominelli, L. (1989). Betrayal of trust: a feminist analysis of power relationship in incest abuse and its relevance for social work practice. *British Journal of Social Work*, 19 (4), tt.291-307.
- Edwards, S. S. M. (2000). Prosecuting 'child pornography': Possession and taking of indecent photographs of children. *Journal of Social Welfare & Family Law*, 22 (1), tt.1-21.
- Eisenberg, N., Owens, R. a Dewey, M. (1987). Attitudes of health-professionals to child sexual abuse and incest. *Child Abuse and Neglect*, 11 (1), tt.109-116.
- Ennew, J. (1986). *The Sexual Exploitation of Children*. Caergrawnt: Polity Press.
- Exton, L. a Kamaljit, T. (2013). *Would they actually have believed me? A focus group exploration of the underreporting of crimes by Jimmy Savile*. Llundain: NSPCC.
- Farmer, E. a Pollock, S. (2003). Managing sexually abused and/or abusing children in substitute care. *Child and Family Social Work*, 8 (2), tt.101-112.
- Firmin, C., Warrington, C. a Pearce, J. (2016). Sexual Exploitation and Its Impact on Developing Sexualities and Sexual Relationships: The Need for Contextual Social Work Interventions. *British Journal of Social Work*, 46 (8), tt.2318-2337.
- Fox Harding, L. M. (1991). The Children Act 1989 in Context: Four perspectives in Child Care Law and Policy (I). *Journal of Social Welfare and Family Law*, 13 (3), tt.179-193.
- Frameworks Institute. (2016). *Communicating About Child Sexual Abuse: A FrameWorks Strategic Memo for the NSPCC*. Washington: Frameworks Institute.
- Furedi, F. (2013). *Moral crusades in an age of mistrust: the Jimmy Savile scandal*, Palgrave pivot. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Gallagher, B. (2000). The extent and nature of known cases of institutional child sexual abuse. *British Journal of Social Work*, 30 (6), tt.795-817.
- Gill, A. K. a Harrison, K. (2015). Child Grooming and Sexual Exploitation: Are South Asian Men the UK Media's New Folk Devils? *International Journal for Crime Justice and Social Democracy*, 4 (2), tt.34-49.

- Gillespie, A. (2011). *Child Pornography: Law and Policy*. Llundain: Routledge.
- Gillespie, A. ac Ost, S. (2016). The 'higher' age of consent and the concept of sexual exploitation. Yn: Reed, A. et al. (Golygyddion). *Consent: domestic and comparative perspectives*. Llundain: Routledge. tt.161-176.
- Gilligan, P. (2012). Contrasting Narratives on Responses to Victims and Survivors of Clerical Abuse in England and Wales: Challenges to Catholic Church Discourse. *Child Abuse Review*, 21 (6), tt.414-426.
- Gohir, S. (2013). *Unheard Voices: The Sexual Exploitation of Asian Girls and Young Women*.
- Gray, D. and Watt, P. (2013). 'Giving Victims a Voice' Cyd-adroddiad MPS ac NSPCC i honiadau o gam-drin rhywiol yn erbyn Jimmy Savile o dan Operation Yewtree. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/yewtree-report-giving-victims-voice-jimmy-savile.pdf>.
- Green, L. (2005). Theorizing sexuality, sexual abuse and residential children's homes: Adding gender to the equation. *British journal of social work*, 35 (4), tt.453-481.
- Green, L. a Masson, H. (2002). Adolescents who sexually abuse and residential accommodation: Issues of risk and vulnerability. *British Journal of Social Work*, 32 (2), tt.149-168.
- Hackett, S., Masson, H., Balfe, M., a Phillips, J. (2015). Community Reactions to Young People Who Have Sexually Abused and Their Families: A Shotgun Blast, Not a Rifle Shot. *Children & Society*, 29 (4), tt.243-254.
- Hall, S. (1997). *Representation: cultural representations and signifying practices*. Llundain; Thousand Oaks, Calif.: Sage.
- Hartill, M. (2013). Concealment of Child Sexual Abuse in Sports. *Quest*, 65 (2), tt.241-25.
- Herman, J. a Hirschman, L. (1977). Father-Daughter Incest. *Signs*, 2 (4), tt.735-756.
- Llywodraeth EM. (2004). *Every Child Matters: Change for Children*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau.
- Llywodraeth EM. (2015b). *Working Together to Safeguard Children: A Guide to Inter-Agency Working to Safeguard and Promote the Welfare of Children*. Llundain: Yr Adran Addysg.
- Hooper, C. a Humphreys, C. (1998). Women whose children have been sexually abused: Reflections on a debate. *British Journal of Social Work*, 28 (4), tt.565-580.
- Horsman, G. (2016). Digital forensics: Understanding the development of criminal law in England and Wales on images depicting child sexual abuse. *Computer Law & Security Review*, 32 (3), tt.419-432.
- Tŷ'r Esgobion. (2011). *Responding Well to those who have been sexually abused: Policy and guidance for the Church of England*. Llundain: Church House.
- Hunter, S. V. (2010). Evolving narratives about childhood sexual abuse: Challenging the dominance of the victim and survivor paradigm. *Australian and New Zealand Journal of Family Therapy*, 31 (2), tt.176-190.
- Jay, A. (2014). *The Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham, 1997-2013*. Rotherham: Cyngor Bwrdeistref Rotherham.

- Jewkes, Y. (2010). Much ado about nothing? Representations and realities of online soliciting of children. *Journal of Sexual Aggression*, 16 (1, SI), tt.5–18.
- Jewkes, Y. ac Wykes, M. (2012). Reconstructing the sexual abuse of children: 'cyber-paeds,' panic and power. *Sexualities*, 15 (8), tt.934–952.
- Kelly, L. (1988). *Surviving sexual violence*. Caergrawnt: Polity Press.
- Kelly, L., Regan, L. a Burton, S. (2000). Sexual exploitation: a new discovery or one part of the continuum of sexual abuse in childhood? Yn: *Home truths about child sexual abuse: influencing policy and practice; a reader*. Llundain: Routledge. tt.70–99.
- Kempe, C. H. (1978). Sexual abuse, another hidden pediatric problem: darlith C. Anderson Aldrich 1977. *Pediatrics*, 62 (3), tt.382–389.
- Kinsey, A., Pomeroy, W.B., Martin, C.E., a Gebhard, P.H. (1998). *Sexual Behavior in the Human Female*. Adargraffiad. Bloomington, Ind: Gwasg y Brifysgol Indiana.
- Kitzinger, J. (2004). *Framing abuse: media influence and public understanding of sexual violence against children*. Llundain: Pluto Press.
- Li, C. K. (1991). The main thing is being wanted: some case studies on adult sexual experiences with children. *Journal of Homosexuality*, 20 (1/2), tt.129–143.
- Lukianowicz, N. (1972). Incest. *British Journal of Psychiatry*, 120 (556), t.301.
- MacLeod, M. a Saraga, E. (1988). Challenging the Orthodoxy: Towards a Feminist Theory and Practice. *Feminist Review*, (28), tt.16–55.
- Malón, A. (2012). Pedophilia: a diagnosis in search of a disorder. *Archives of sexual behavior*, 41 (5), tt.1083–1097.
- McAlinden, A.-M. (2006). 'Setting 'Em Up:' Personal, Familial and Institutional Grooming in the Sexual Abuse of Children. *Social & Legal Studies*, 15 (3), tt.339–362.
- McManus, M. A. ac Almond, L. (2014). Trends of indecent images of children and child sexual offences between 2005/2006 and 2012/2013 within the United Kingdom. *Journal of Sexual Aggression*, 20 (2), tt.142–155.
- McNaughton Nicholls, C., Harvey, S. a Paskell, C. (2014). *Gendered perceptions: what professionals say about the sexual exploitation of boys and young men in the UK*. Barkingside: Barnardo's.
- Melrose, M. (2004). Young people abused through prostitution: some observations for practice. *Practice: Social Work in Action*, 16 (1), tt.17–29.
- Naples, N. A. (2003). Deconstructing and Locating Survivor Discourse: Dynamics of Narrative, Empowerment, and Resistance for Survivors of Childhood Sexual Abuse. *Signs*, 28 (4), tt.1151–1185.
- Nava, M. (1988). Cleveland and the Press: Outrage and Anxiety in the Reporting of Child Sexual Abuse. *Feminist Review*, (28), tt.103–121.
- Nelson, S. (2016). *Tackling child sexual abuse: radical approaches to prevention, protection and support*. Bryste: Policy Press.

- O'Dell, L. (2003). The 'harm' story in childhood sexual abuse: contested understandings, disputed knowledges. Yn: Reavey, P. ac Warner, S. (Golygyddion). *New Feminist Stories of Child Sexual Abuse: Sexual Scripts and Dangerous Dialogues*. Llundain: Routledge. tt.131–147.
- Olafson, E., Corwin, D. L. a Summit, R. C. (1993). Modern history of child sexual abuse awareness: cycles of discovery and suppression. *Child abuse & neglect*, 17 (1), tt.7–24.
- Parton, N. (2016). The Contemporary Politics of Child Protection: Part Two (Darlith Sylfaenydd BASPCAN 2015). *Child Abuse Review*, 25 (1), tt.9–16.
- Pearce, J. (2013). A social model of 'abused consent'. Yn: Melrose, M. a Pearce, J. (Golygyddion). *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation*. Basingstoke: Palgrave Macmillan. tt.52–68.
- Pearce, J. (2014). Moving on with Munro: Child sexual exploitation within a child protection framework. Yn: Blyth, M. (Ed). *Moving on from Munro: Improving Children's Services*. Bryste: Policy Press. tt.125–141.
- Reisel, A. (2016). Practitioners' perceptions and decision-making regarding child sexual exploitation – a qualitative vignette study. *Child & Family Social Work*, (Rhagfyr).
- Robinson, L. (2011). *Gay Men and the Left in Post-War Britain: How the Personal got Political*. Adargraffiad. Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion.
- Salter, M. (2018). Cam-drin plant yn rhywiol. Yn: DeKeseredy, W. and Dragiewicz, M. (Eds). *Routledge Handbook of Critical Criminology*. Ail argraffiad. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge. tt.316–333.
- Scott, S. (1997). Feminists and false memories: A case of postmodern amnesia. *Feminism & Psychology*, 7 (1), tt.33–38.
- Scott, S. (2001a). Surviving selves: Feminism and contemporary discourses of child sexual abuse. *Feminist Theory*, 2 (3), tt.349–361.
- Smart, C. (1999). A history of ambivalence and conflict in the discursive construction of the 'child victim' of sexual abuse. *Social & Legal Studies*, 8 (3), tt.391–409.
- Smith, C., Allardyce, S., Hackett, S., Bradbury-Jones, C., Lazenbatt, A., a Taylor, J. (2014). Practice and policy in the UK with children and young people who display harmful sexual behaviours: An analysis and critical review. *Journal of Sexual Aggression*, 20 (3), tt.267–280.
- Stanley, N. (1999). The institutional abuse of children: an overview of policy and practice. Yn: Manthorpe, J., Penhale, B. a Stanley, N. (Golygyddion). *Institutional Abuse: Perspectives Across the Life Course*. Llundain: Routledge. tt.16–43.
- Sullivan, J. a Beech, A. (2002). Professional perpetrators: sex offenders who use their employment to target and sexually abuse the children with whom they work. *Child Abuse Review*, 11 (3), tt.153–167.
- Taylor, M. a Quayle, E. (2003). *Child Pornography: An Internet Crime*. Hove: Brunner-Routledge.
- Taylor-Browne, J. (1997a). Obfuscating Child Sexual Abuse I: The Identification of Social Problems. *Child Abuse Review*, 6 (1), tt.4–10.
- Temkin, J. (2002). *Rape and the Legal Process*. Second. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

- Thorstad, D. (1991). Man/boy love and the American gay movement. *Journal of Homosexuality*, 20 (1-2), tt.251-274.
- Timmerman, M. C. a Schreuder, P. R. (2014). Sexual abuse of children and youth in residential care: An international review. *Aggression and Violent Behavior*, 19 (6), tt.715-720.
- Tufail, W. (2015). Rotherham, Rochdale, and the Racialised Threat of the 'Muslim Grooming Gang'. *International Journal for Crime Justice and Social Democracy*, 4 (3), tt.30-43.
- Ward, J. a Patel, N. (2006). Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people. *Child Abuse Review*, 15 (5), tt.341-350.
- Ward, T. a Keenan, T. (1999). Child Molesters' Implicit Theories. *Journal of Interpersonal Violence*, 14 (8), tt.821-838.
- Waterhouse, R. (2000). *Ar Goll mewn Gofal: Adroddiad Tribiwnlys yr Ymchwiliad i gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd blaenorol cynghorau sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974*. Llundain: TSO.
- Webster, R. (2005). *Cyfrinach Bryn Estyn: gwneud helpa gwrrachod fodern*. Rhydychen: Orwell Press.
- Whittier, N. (2009). *The Politics of Child Sexual Abuse: Emotion, Social Movements, and the State*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Williams, M. L. a Hudson, K. (2013). Public perceptions of internet, familial and localised sexual grooming: Predicting perceived prevalence and safety. *Journal of Sexual Aggression*, 19 (2), tt.218-235.
- Wyre, R. (2000). Paedophile characteristics and patterns of behaviour: developing and using a typology. Yn: Itzin, C. (Golygydd). *Home truths about child sexual abuse: influencing policy and practice; a reader*. London: Routledge. tt.49-69.

